

Sut mae arweiniad gyrfaoedd i ddisgyblion ysgol yn cael ei flaenoriaethu?

Awduron: Katy Huxley and Rhys Davies

Dyddiad: Mawrth 2023

Mae'r Cipolwg Data hwn yn archwilio sut y defnyddir gwybodaeth i lywio penderfyniadau ynghylch darparu cyfweiliadau arweiniad gyrfaoedd ymhlith disgyblion cyfnod allweddol 4 (CA4) yng Nghymru. Mae'n archwilio pwysigrwydd cymharol nodweddion cefndirol sydd wedi'u cynnwys mewn cofnodion addysg weinyddol o'u cymharu â gwybodaeth a ddarparwyd gan ddisgyblion drwy offeryn diagnostig Gyrfa Cymru.

Cefndir

Yn y DU, mae'r newid o ddysgu i waith yn dod yn fwyfwy cymhleth ac mae pobl ifanc yn wynebu amrywiaeth brawychus o heriau. O ystyried cymhlethdod y pontio rhwng ysgol a gwaith, ysgol ac addysg ôl-orfodol, a gofynion y farchnad lafur gyfoes, teimlir bod darparu arweiniad gyrfaoedd digonol ac amserol yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi pobl ifanc i bontio o addysg amser llawn.

Mae ymchwil wedi dangos bod arweiniad gyrfaoedd yn arbennig o bwysig i bobl ifanc sy'n perthyn i deuluoedd sydd â hanes o ddiweithdra neu gyflogaeth sgiliau isel a/neu ddim profiad o addysg uwch (Haynes et al. 2013).

Felly sut mae darparu arweiniad gyrfaoedd yn cael ei flaenoriaethu o fewn ysgolion Cymru? Yng Nghymru, mae Gyrfa Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd annibynnol a diduedd. O dan ei strategaeth gyflawni pum mlynedd newydd [Dyfodol Disglair](#), nod Gyrfa Cymru yw cynnig gwasanaeth wedi'i bersonoli, gan dargedu cymorth at y rheini sydd fwyaf tebygol o wynebu rhwystrau rhag symud i broses bontio gynaliadwy, cadarnhaol o addysg statudol. Mae'r strategaeth hon yn cynnwys cymorth wedi'i dargedu yn CA4 i sicrhau bod adnoddau'n mynd i'r afael ag anghenion cleientiaid. Nodir pedair lefel o gymorth:

- **Lefel Un** - cymorth cyffredinol i'r bobl ifanc hynny a fydd yn hunangynorthwyo drwy lwyfannau digidol a chyfryngau cymdeithasol Gyrfa Cymru ac yn mynychu sesiynau grŵp.
- **Lefel Dau** - arweiniad a chyfweiliad hyfforddi ar gyfer pobl ifanc y nodwyd bod angen cymorth arnynt

drwy'r offeryn diagnostig Gwirio Gyrfa.

- **Lefel Tri** – cymorth mwy dwys wedi'i dargedu ar gyfer y bobl ifanc hynny y gall eu nodweddion arwain at eu tangynrychioli mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl addysg statudol gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, Plant sy'n Derbyn Gofal, plant sy'n derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS); gofalwyr ifanc, Gweithredu gan yr Ysgol⁺¹ a mynychwyr gwael.
- **Lefel Pedwar** - mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael arweiniad diduedd a chymorth hyfforddi; presenoldeb mewn adolygiadau pontio ar gyfer pobl ifanc gyda chynlluniau datblygu unigol; cyflwyno sesiynau grŵp a phresenoldeb mewn digwyddiadau rhieni. Nid yw'r grŵp hwn yn cwblhau Gwirio Gyrfa.

Mae Gyrfa Cymru yn gweithio'n agos ag ysgolion i nodi'r rhai sydd fwyaf angen cymorth. Yn gyntaf, mae ysgolion yn rhannu gwybodaeth â Gyrfa Cymru am nodweddion disgyblion (lefelau cyrhaeddiad, presenoldeb, cymhwysedd FSM) i nodi'r disgyblion hynny sy'n debygol o fod yn y perygl mwyaf o ymddieithrio a disgyn y tu allan i'r system addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (sy'n gofyn am gymorth Lefel 3).

Fodd bynnag, efallai na fydd nodweddion o'r fath yn dal pawb sydd angen cymorth. I gefnogi barn broffesiynol ymarferwyr arweiniad gyrfaedd gyrfa, yn ystod CA4 mae disgyblion yng Nghymru yn cael y cyfle i gwblhau arolwg 'Gwirio Gyrfa' Gyrfa Cymru. Wedi'i gwblhau'n bennaf yn ystod Blwyddyn 10, mae'r offeryn diagnostig hwn yn helpu cynghorwyr gyrfaedd i nodi'r disgyblion hynny sydd fwyaf angen cymorth a'u gofynion gwasanaeth tebygol. Mae Gwirio Gyrfa yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau i ddisgyblion sy'n caniatáu i gynghorwyr gyrfaedd nodi'r disgyblion hynny sydd â disgwyliadau afrealistig, sy'n tangyflawni neu sy'n brin o ffocws, hyder neu'r cymhelliant i wneud i bethau ddigwydd (cymorth Lefel 2).

Yr hyn a Wnaethom

Drwy gyfuno data o'r Casgliad Data Cenedlaethol (NDC, sef y Gronfa Ddata Disgyblion Genedlaethol, NPD gynt,) ag ymatebion i'r arolwg Gwirio Gyrfa, rydym eisoes wedi creu [cronfa ddata](#) sy'n ein galluogi i edrych ar sut mae gwahanol grwpiau o ddisgyblion yn ymateb i Wirio Gyrfa. Rydym bellach hefyd wedi cyfuno gwybodaeth fanwl am y rhyngweithiadau y mae disgyblion yn eu cael gyda Gyrfa Cymru yn ystod Blwyddyn 11, gan wahaniaethu rhwng mathau mwy a llai dwys o gymorth.

Gan ddefnyddio data o ddwy garfan academaidd o ddisgyblion Blwyddyn 11 o 2015/16 a 2016/17, rydym yn gallu archwilio sut mae'r ddarpariaeth cymorth gyrfaedd i ddisgyblion CA4 yn amrywio o ran eu nodweddion cefndirol a'u hymatebion i Wirio Gyrfa.

Yn 2015/16 a 2016/17, ymatebodd 68% o ddisgyblion—cyfwerth â thua 42,000 o ddisgyblion ar draws y ddwy garfan. Mae'r data yn ein galluogi i archwilio sut mae Gyrfa Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi anghenion gwahanol grwpiau o ddisgyblion.

Mae Gwirio Gyrfa yn casglu amrywiaeth o wybodaeth gan ddisgyblion, gan gynnwys cwestiynau sy'n gofyn am eu camau nesaf arfaethedig, dyheadau swydd, hyder wrth wneud penderfyniadau a rhwystrau canfyddedig i gyflawniad. Er hwylustod, buom yn edrych ar yr ymatebion o gyfres o bum cwestiwn o Wirio Gyrfa sy'n canolbwyntio ar allu unigolyn i wneud dewisiadau addysgiadol a gyrfaol gwybodus. Amlinellir yr ymatebion i'r cwestiynau hyn yn Nhabl 1.

Gellir gweld bod ychydig dros hanner y disgyblion naill ai'n adrodd nad oes ganddynt gynllun ar gyfer eu dyfodol (20%) neu fod ganddynt gynllun, ond nid ydynt yn gwybod sut i wneud iddo ddigwydd (31%).

Tabl 1: Mesurau Gwirio Gyrfa

Adnabod fy hun	Dydw i ddim yn gwybod beth yw fy nghryfderau na beth mae angen i mi ei wella	Rwy'n gwybod rhai o'm cryfderau a rhai o'r pethau y mae angen i mi eu gwella	Rwy'n gwybod y rhan fwyaf o'm cryfderau rwy'n gwybod fy holl gryfderau a'r rhan fwyaf o'r pethau y mae angen i mi eu gwella	Rwy'n gwybod fy holl gryfderau a'r pethau sydd angen i mi eu gwella a gallaf roi enghreifftiau i ddangos hyn	Cyfanswm
	5.9	30.1	52.7	11.3	
Gwybod fy opsiynau	Nid oes gennyf wybodaeth am gyfleoedd	Rwyf wedi cael rhywfaint o wybodaeth am gyfleoedd	Rwyf wedi dod o hyd i rywfaint o wybodaeth am gyfleoedd, ond efallai y bydd angen rhagor o wybodaeth arnaf	Rwyf wedi dod o hyd i'r wybodaeth gywir am gyfleoedd i'm helpu gyda fy nghynlluniau ar gyfer y dyfodol	100
	11.7	33.0	43.3	12.0	
Gwneud penderfyniadau	Dydw i ddim yn hyderus ynglŷn â gwneud penderfyniadau, mae'n well gen i fod pobl eraill eu gwneud i mi	Rwyf am wneud penderfyniadau, ond mae eraill fel arfer yn eu gwneud i mi	Rwy'n gwneud fy mhenderfyniadau fy hun, ond nid wyf yn siŵr fy mod bob amser yn ei wneud yn dda	Rwy'n gwneud fy mhenderfyniadau fy hun ac rwy'n hyderus eu bod yn benderfyniadau da	100
	6.3	10.8	62.3	20.5	
Gwybod pwy all helpu	Dydw i ddim yn gwybod at bwy i fynd am help	Rwy'n gwybod at bwy y gallaf fynd os bydd angen help arnaf, ond mae'n debygol na fyddaf yn gwneud hynny	Rwy'n gwybod at bwy y gallaf fynd i gael cymorth ac mae'n debyg y gwnaf	Rwyf eisoes yn gofyn i bobl eraill am help	100
	9.2	32.7	45.8	12.3	
Gwneud iddo ddigwydd	Nid oes gennyf gynllun ar gyfer fy nyfodol	Mae gen i gynllun ar gyfer fy nyfodol, ond dydw i ddim yn gwybod sut i wneud iddo ddigwydd	Mae gen i gynllun ar gyfer fy nyfodol ac rwy'n gwybod sut i wneud iddo ddigwydd, ond nid wyf wedi dechrau eto	Rwy'n hyderus ynghylch fy nghynllun ar gyfer fy nyfodol ac rwyf eisoes wedi dechrau gwneud iddo ddigwydd	100
	20.4	30.7	35.8	13.1	

Defnyddiwyd y mesurau hyn i greu 'sgôr' Gwirio Gyrfa drwy grynhoi ymatebion i'r pum cwestiwn hyn.

Dyrannwyd gwerth o 1-4 i bob un o'r categorïau ymateb, gyda gwerthoedd is yn dynodi mwy o ansicrwydd ynghylch galluoedd cynllunio gyrfa unigolion. Dyrannwyd gwerth o 0 i'r rhai na roddodd unrhyw ymateb i Wirio Gyrfa. Cafodd y rhain eu hadio ar draws y pum cwestiwn i gael sgôr gyfanredol (ystod 0-20). Fe wnaethom gymryd ein sgôr Gwirio Gyrfa ac edrych ar sut mae hyn yn berthnasol i gymorth a ddarperir gan Gyrfa Cymru.

Mae data sy'n ymwneud â'r rhyngweithiadau y mae Gyrfa Cymru yn eu cael â disgyblion yn rhoi disgrifiad manwl o natur y gwasanaeth a ddarparwyd, gan wahaniaethu'n bennaf rhwng gwybodaeth, cyngor ac arweiniad. Gellir ystyried yn fras bod y tri chategori hyn yn cynrychioli lefelau cynyddol o gymorth. Er y gall cyngor gyrfaedd gynnwys pethau fel cyfeirio at wybodaeth am gyfleoedd dysgu a gwaith, mae arweiniad gyrfaedd yn fwy manwl a dim ond cynghorydd arweiniad gyrfaedd â chymwysterau proffesiynol all ymgymryd ag ef. Yn y cyfweiliadau hyn, gall cynghorwyr nodi diddordebau, sgiliau a doniau'r cleient ac archwilio sut y gallai unigolion oresgyn unrhyw rwystrau y maent yn eu hwynebu wrth ddatblygu cynllun gweithredu pwrpasol. Mae gwybodaeth am y sianelau y darperir y gwasanaethau hyn drwyddynt hefyd yn cael ei chofnodi, gan wahaniaethu rhwng gweithgareddau sy'n digwydd yn bersonol neu drwy ddulliau eraill megis ffôn, e-bost, neges destun, fideo, llythyr neu dros y we. Mae codau pellach yn gwahaniaethu rhwng y gwahanol fathau o weithgareddau a wneir, megis gwahanol fathau o gyfweiliadau, rhyngweithiadau grŵp a pharatoi dogfennau cynllunio gyrfa.

Yr hyn a Ganfuom

Mae Tabl 2 yn rhoi gwybodaeth am y rhyngweithiadau sy'n digwydd gyda disgyblion a sut mae derbyn y rhyngweithiadau hyn yn amrywio yn ôl y sgôr Gwirio Gyrfa, a ddeilliwyd gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddisgrifir uchod. Mae disgyblion wedi'u grwpio'n chwartelau ar sail eu sgorau, gyda'r chwartel cyntaf yn cynrychioli'r disgyblion hynny sy'n ymddangos yn fwyaf agored i wneud dewisiadau addysgiadol a gyrfaol anwybodus. Mae categori ar wahân hefyd ar gyfer y disgyblion hynny na ymatebodd i Wirio Gyrfa.

Gellir cofnodi bod disgyblion wedi cael rhyngweithiadau lluosog â Gyrfa Cymru o wahanol fathau. Mae hyd yn oed manylion negeseuon testun neu ohebiaeth e-bost gyda chleientiaid yn cael eu cofnodi. Er mwyn crynhoi'r wybodaeth hon, mae Tabl 2 yn cyflwyno a yw disgybl wedi cael y math hwnnw o rhyngweithio yn ystod naill ai Blwyddyn 10 neu Flwyddyn 11. Nid yw amseriad y rhyngweithiadau hyn yn cael ei ystyried ac felly efallai fod rhai wedi digwydd cyn i'r disgyblion hyn gwblhau Gwirio Gyrfa (os o gwbl). Mae'r tabl yn arddangos bod llawer o ymyriadau yn gyffredinol yn eu cwmpas. Er enghraifft, nid yw sesiynau gwaith grŵp wedi'u targedu ar ddisgyblion â sgorau Gwirio Gyrfa isel. Yn wir, mae'n bosibl iawn bod Gwirio Gyrfa wedi'i gyflwyno neu ei gwblhau gyntaf gan ddisgyblion yn ystod sesiwn gwaith grŵp. Mewn cyferbyniad, mae'r math mwyaf dwys o ymgysylltu—cyfweiliad arweiniad un-wrth-un gyda chynghorydd arweiniad gyrfaedd cymwys—yn fwy tebygol o gael ei dderbyn gan ddisgyblion â sgorau Gwirio Gyrfa isel.

Tabl 2: Canran y disgyblion a gafodd ymyriadau arweiniad gyrfaedd yn ôl Sgôr Gwirio Gyrfa

	Sgôr Gwirio Gyrfa					
	Dim ymateb	Chwartel 1af	2il	3ydd	4ydd Chwartel	l gyd
Un wrth Un - Gwybodaeth - F2F	14.6	15.0	12.8	11.8	11.3	13.4
Un wrth Un - Gwybodaeth - Arall	16.5	12.4	11.7	10.8	11.6	13.2
Un wrth Un - Cyngor - F2F	9.9	11.5	9.6	9.4	9.0	9.9
Un wrth Un - Cyngor - Arall	3.4	1.5	1.3	1.5	1.8	2.1
Un wrth Un - Arweiniad - F2F	46.6	62.1	46.6	42.3	39.3	47.6
Un wrth Un - Arweiniad - Arall	1.7	1.2	1.4	1.3	1.7	1.5
Gwaith Grŵp - Gwybodaeth	23.9	42.9	42.4	42.1	40.8	36.2
Gwaith Grŵp - Cyngor	12.7	22.9	22.4	22.8	23.8	19.6
Gwaith Grŵp - Arweiniad	22.7	40.9	41.2	41.6	40.2	35.1
SMS/E-bost at/gan y cleient	37.0	57.2	55.3	55.6	55.2	49.7
Eirioli/Cydgysylltu - F2F	20.9	14.7	11.7	10.7	10.2	14.8
Eirioli/Cydgysylltu - arall	28.0	20.7	17.7	16.4	16.0	21.1
Rhyngweithio Rhieni Gwarcheidwaid - F2F	9.2	7.5	6.6	6.0	5.6	7.4
Rhyngweithio Rhieni Gwarcheidwaid - Arall	10.7	8.9	7.9	7.4	6.8	8.7
Dogfennau Cynllunio Gyrfa	30.5	40.8	30.5	26.7	24.6	30.9
Adolygiad Anhawster Dysgu/Anabledd	5.5	2.5	2.1	2.0	1.8	3.2

Nodiadau: Mae Eirioli/Cydgysylltu yn cyfeirio at waith a wneir gan gynghorwyr ar ran cleientiaid, heb fod y cleientiaid o reidrwydd yn bresennol.

Pa nodweddion eraill sy'n gysylltiedig â chael cyfweliad arweiniad?

Mae Tabl 3 yn edrych ar dderbyn cyfweliadau arweiniad yn ôl sgôr Gwirio Gyrfa, cyrhaeddiad TGAU ar ddiwedd Blwyddyn 11 (wedi'i fesur mewn chwarteli) a chymhwysedd i gael prydu ysgol am ddim (eFSM). Gellir gweld bod y rhai sydd â'r lefelau isaf o gyrhaeddiad addysgol yn fwy tebygol o gael cyfweliad arweiniad gyrfaoedd. Wrth edrych ar draws y rhes uchaf yn Nhabl 3, gellir gweld, ymhlith y rhai â'r lefelau cyrhaeddiad addysgol isaf, nad oes cydberthynas gref rhwng sgôr Gwirio Gyrfa a chael cyfweliad arweiniad gyrfaoedd. Mae hyn yn arbennig o wir ymhlith disgyblion eFSM, ac yn eu plith mae oddeutu wyth o bob deg o ddisgyblion sy'n cwblhau Gwirio Gyrfa yn cael arweiniad gyrfaoedd beth bynnag y maent yn ei adrodd yn yr arolwg. Mae hyn yn amlygu dylanwad pennaf cyrhaeddiad isel a chymhwysedd FSM ar benderfyniadau blaenoriaethu cynghorwyr arweiniad gyrfaoedd. Fodd bynnag, mae'r rhai eFSM nad ydynt yn ymateb i Wirio Gyrfa yn llai tebygol o gael cyfweliad yn amlygu'r anawsterau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â'r grŵp anodd ei gyrraedd hwn.

Ymhlith y rhai â lefelau cyrhaeddiad uwch, mae'r tebygolrwydd o gael cyfweliad arweiniad gyrfaoedd yn lleihau. Fodd bynnag, ar bob lefel cyrhaeddiad, mae disgyblion eFSM yn fwy tebygol o gael cyfweliad. Mae'r dadansoddiad hefyd yn arddangos ymhlith y rhai â lefelau cyrhaeddiad uwch, bod y rhai â'r sgorau Gwirio Gyrfa isaf (chwartel 1) yn fwy tebygol o gael cyfweliad.

Table 3: Guidance interview rates by Career Check score, FSM status and GCSE points

		Sgôr Gwirio Gyrfa											
		Dim ymateb		Chwartel 1af		2 ^{il} Chwartel		3 ^{ydd} Chwartel		4 ^{ydd} Chwartel		I gyd	
		Heb fod yn FSM		Heb fod yn FSM		Heb fod yn FSM		Heb fod yn FSM		Heb fod yn FSM		Heb fod yn FSM	
		FSM		FSM		FSM		FSM		FSM		FSM	
Pwyntiau TGAU (Chwarteli)													
Chwartel 1^{af}	63.4	67.9	76.2	79.3	68.1	77.1	66.3	77.1	66.4	79.7	67.2	72.7	
2^{il}	44.8	57.0	65.5	76.0	51.3	63.0	49.2	59.6	49.3	57.7	51.5	62.6	
3^{ydd}	32.0	43.2	53.8	64.3	38.2	55.6	33.2	50.2	33.4	37.0	37.7	50.1	
4^{ydd} Chwartel	24.4	30.3	45.1	57.6	27.6	43.5	25.5	40.2	22.7	37.4	28.1	40.4	
Cyfanswm	42.7	61.4	59.8	74.5	43.6	66.4	39.6	62.8	36.9	58.0	44.5	64.5	

Pam Mae'n Bwysig

Rydym wedi dangos mai disgyblion CA4 sydd â lefelau cyrhaeddiad isel ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sydd fwyaf tebygol o dderbyn arweiniad beth bynnag fo'r ymatebion a ddarperir ganddynt trwy Wirio Gyrfa. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd y dangosyddion hyn i gynghorwyr gyrfaedd wrth flaenoriaethu cymorth i ddisgyblion CA4.

Fodd bynnag, ymhlith y rhai sydd â lefelau cyrhaeddiad uwch, mae Gwirio Gyrfa yn rhoi'r cyfle i nodi'r rhai lle mae achos pryder ynghylch eu galluoedd ynghylch cynllunio gyrfa. Mae'r canfyddiadau hyn yn arddangos y cymhlethdod y nodir bod angen cymorth ar ddisgyblion ag ef.

Mae astudiaeth ddiweddar o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn Lloegr (Moote ac Archer, 2016)² unwaith eto wedi codi pryderon bod y rhai o gefndiroedd difreintiedig yn llai tebygol o gael addysg gyrfaedd. Fodd bynnag, mae'r ymchwil hwn ac ymchwil flaenorol ar y ddarpariaeth a'r nifer sy'n manteisio ar arweiniad gyrfaedd mewn ysgolion wedi'i seilio'n gyffredinol ar arolygon gwirfoddol a gallai fod yn destun problemau sy'n gysylltiedig â thuedd ymateb (Anderson, et al. 2004³; Furlong, 2006⁴; Haynes et al, 2013⁵).

Mae ein dadansoddiad sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol yn rhoi dealltwriaeth fwy cynnil o'r modd y caiff arweiniad gyrfaedd ei dargedu'n bennaf ar grwpiau difreintiedig. Drwy roi gwell dealltwriaeth i ni o'r boblogaeth sydd mewn perygl, mae gan y canfyddiadau hyn hefyd oblygiadau pwysig o ran gwerthuso effeithiolrwydd arweiniad gyrfaedd.

Beth Nesaf?

At ddiben y dadansoddiad hwn, dim ond data o bum mesur o'r arolwg Gwirio Gyrfa sy'n ymwneud â gallu unigolyn i gynllunio gyrfa yr ydym wedi'u defnyddio. Mae'n bwysig yn awr i ni archwilio data arall o Wirio Gyrfa i weld pa newidynnau sydd bwysicaf wrth ragfynegi pa ddisgyblion sy'n cael cymorth arweiniad gyrfaedd. Bydd y gwaith hwn hefyd yn cael ei gefnogi gan gyfweiliadau â chynghorwyr arweiniad gyrfaedd i glywed yn uniongyrchol sut maent yn defnyddio'r data a gasglwyd o Wirio Gyrfa. Mae hefyd angen archwilio sut mae dwyster uwch y cymorth yn amlygu ei hun yn y data. Er enghraifft, a yw'r rhai y nodir bod angen cymorth lefel tri arnynt yn derbyn nifer uwch o gyfweiliadau neu a ydynt yn cael gwahanol gyfuniadau neu 'fwndeli' o ymyriadau?

Cydnabyddiaethau

Cynhyrchwyd y Cypolwg Data hwn gan dîm ymchwil Sgiliau a Chyflogadwyedd YDG Cymru. Mae'n rhoi cipolwg o'r ymchwil addysgiadol sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn YDG Cymru ond ni fwriedir iddo roi darlun cyflawn o'r gwaith a wneir yn y maes hwn na rhaglen waith YDG Cymru. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y Cypolwg Data hwn wedi'i hadolygu gan gydweithwyr YDG Cymru sydd ag arbenigedd yn y maes thematig hwn a derbynnir eu bod yn gywir ar y pwynt cyhoeddi. Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn y Mewnwelediad Data hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau sefydliadau partner YDG Cymru.

Cyfeiriadau


¹ Mae Gweithredu gan yr Ysgol+ yn categori o gymorth ar gyfer disgyblion sydd angen mwy o gymorth a ddarperir yn eu hysgol ar gyfer disgyblion ag addysg arbennig, neu anghenion dysgu ychwanegol.

² Moote, J., ac Archer, L. (2018). Methu â chyflawni? Archwilio statws presennol darpariaeth addysg gyrfaoedd yn Lloegr, Papurau Ymchwil mewn Addysg, 33(2), tt. 187-215.

³ Anderson, S., Biggart, A., Diacon, K., Furlong, A., Given, L., a Hinds, K. (2004). 17 yn 2003 Pobl Ifanc yr Alban: Canfyddiadau o Arolwg yr Alban o Gadawyr Ysgol. Paratowyd ar gyfer Adran Addysg Gweithrediaeth yr Alban.

⁴ Furlong, A. (2006). Ddim yn ateb NEET iawn: yn cynrychioli enghreifftiau problemus o bontio i'r farchnad lafur ymhlith y rhai sy'n gadael yr ysgol yn gynnar. Gwaith, Cyflogaeth a Chymdeithas. 20(3), tt. 553-569.

⁵ Haynes, G., McCrone, T., a Wade, P. (2013) Proses pobl ifanc ar gyfer gwneud penderfyniadau: pwysigrwydd addysg, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd o ansawdd uchel yn yr ysgol, Papurau Ymchwil mewn Addysg, 2(4), tt.459-482.



Cynhyrchwyd gan YDG Cymru

Gwefan: ADRWales.org

Twitter: [@ADR_Wales](https://twitter.com/ADR_Wales)

Mae'r ymchwil hwn wedi'i wneud fel rhan o raglen waith YDG Cymru, fel rhan o faes ymchwil thematig Sgiliau a Chyflogadwyedd. Mae'r meysydd ymchwil thematig yn cyd-fynd â'r themâu blaenoriaeth a nodir yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae YDG Cymru yn dod ag arbenigwyr gwyddor data yn Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe, staff o Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD) ym Mhrifysgol Caerdydd a thimau arbenigol o fewn Llywodraeth Cymru at ei gilydd i ddatblygu tystiolaeth newydd sy'n cefnogi'r Rhaglen Lywodraethu. drwy ddefnyddio Banc Data SAIL ym Mhrifysgol Abertawe, i gysylltu â dadansoddi data dienw. Mae YDG Cymru yn rhan o'r Cyngor Economaidd ac Ymchwil Cymdeithasol (rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU) wedi'i gyllido gan YDG y DU.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â

Cathrine.E.Richards@Swansea.ac.uk

Partneriaid YDG Cymru

